# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 4 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ystyried cymorth ariannol i'r Cynllun Clwb Ffilmiau ledled Cymru. (WAQ55716)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Rwy'n falch bod nifer o bartneriaid wedi dod ynghyd i dreialu cyfleoedd i ddisgyblion ac athrawon archwilio'r byd ffilm drwy gynnal Clybiau Ffilm ar ôl ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ei gwasanaeth cymorth busnes creadigol, yn rhoi arian i bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, yn cynnwys Asiantaeth Ffilm Cymru.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd rhaglen genedlaethol o Athrawon Siartredig yn dal i gael ei chyflwyno'r flwyddyn nesaf ac y bydd cyllid sydd wedi'i ddyrannu'n benodol i hyn yn cael ei ddarparu yn eich cyllideb. (WAQ55717)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Gwnaeth fy rhagflaenydd, Jane Hutt, ymrwymiad i sicrhau bod arian ar gael yn 2010-11 i alluogi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i barhau â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Athrawon Siartredig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rwyf yn adolygu'r holl gyllidebau addysg ar gyfer y flwyddyn nesaf gan gynnwys ariannu'r rhaglen hon. Wrth ddod i benderfyniad, byddaf yn ystyried canlyniadau yr adolygiad o DPP yn y sector addysg, y mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio arno dros y misoedd diwethaf. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r Rhaglen Athrawon Siartredig fel rhan o'r adolygiad hwn.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O'r deg penderfyniad Gweinidogol diwethaf ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion (yn mynd yn ôl i fis Mehefin 2009), beth yw'r cyfnod byrraf a'r cyfnod hiraf a gymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud penderfyniad Gweinidogol. (WAQ55718)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

O blith y deg penderfyniad gweinidogol diwethaf ar gynigion trefniadaeth ysgolion, 25 wythnos yw'r cyfnod byrraf a 45 wythnos yw'r cyfnod hiraf. Mae'r cynigion hynny sy'n wynebu cryn wrthwynebiad neu sy'n dra cymhleth yn cymryd mwy o amser i'w hystyried.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O'r 19 o gynigion ad-drefnu ysgolion sy'n disgwyl am benderfyniad Gweinidogol ar hyn o bryd, beth yw'r cyfnod hiraf y mae cynnig wedi bod yn disgwyl am benderfyniad Gweinidogol. (WAQ55719)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

O blith y cynigion trefniadaeth ysgolion sy'n destun penderfyniad gweinidogol ar hyn o bryd, y cyfnod hiraf ers cyhoeddi unrhyw un o'r cynigion yw 49 wythnos. Caiff papurau llawn ar gynigion eu cyflwyno i Weinidogion Cymru 13 wythnos ar ôl cyhoeddi'r cynnig fel arfer.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi gwelliannau yn rhwydwaith bws y Traws Cambria yn ystod y 12 mis nesaf. (WAQ55714)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Mae Cymru'n Un yn gwneud ymrwymiad i greu rhwydwaith TrawsCambria Cymru gyfan newydd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu Bwrdd Rheoli TrawsCambria i helpu i gyflawni hyn.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cwblhau adolygiad trylwyr o'r rhwydwaith presennol ac mae'n ystyried opsiynau i wella gwasanaethau presennol yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau cyflymach ychwanegol.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o ddigwyddiadau a gofnodwyd mewn gwasanaethau cymunedol (gan gynnwys ysbytai cymuned) yn ôl categori a bwrdd iechyd lleol ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ55708)

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o ddigwyddiadau a gofnodwyd mewn ysbytai acíwt/cyffredinol yn ôl categori ac ysbyty ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ55711)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Mae'n ofynnol i holl sefydliadau'r GIG gofnodi data ar achosion drwy system adrodd a dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Ceir adroddiadau Quarterly Data Summary Wales a chrynodebau o'r wybodaeth hon ar lefel sefydliad yn:
http://www.nrls.npsa.nhs.uk/patient-safety-data/

Gellir gwneud cais am wybodaeth fanwl bellach drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau osteoporosis a thorri esgyrn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ55715)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

O ran Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r Byrddau Iechyd Lleol perthnasol yn gyfrifol am ddarparu a datblygu Gwasanaethau Cyswllt Toriadau effeithiol i fodloni'r gofynion a nodwyd gennym yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.